

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i: Adroddiad AHGTAEF PEEL 2025-27 Heddlu Dyfed-Powys.

Croesawaf adroddiad asesu Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL) annibynnol Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (AHGTAEF), sy'n asesu Heddlu Dyfed-Powys ar draws naw maes plismona.

Canfu'r asesiad bod Heddlu Dyfed-Powys wedi datblygu'n gadarnhaol mewn pum maes perfformiad y barnwyd eu bod 'angen gwella' neu'n 'ddigonol' o'r blaen gan yr arolygiaeth annibynnol, yn ystod eu harolygiad diwethaf yn 2023-2025.

Yn ein Bwrdd Plismona diweddaraf, cadarnhaodd y Prif Gwnstabl fod Heddlu Dyfed-Powys yn derbyn y canfyddiadau ac yn fodlon â'r cynnydd a'r gwelliannau a wnaed mewn sawl maes. Roedd y Prif Gwnstabl yn awyddus i gydnabod ymrwymiad a gwaith caled pawb yn Heddlu Dyfed-Powys, sy'n rhywbeth rwyf innau hefyd yn cydnabod. Yn arbennig, cydnabu ymrwymiad swyddogion a staff tuag at gadw pobl yn ddiogel yn yr adroddiad drwy eu gwaith i atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Wrth ymateb i'r cyhoedd, mae'r adroddiad yn cydnabod yn gadarnhaol y gwelliannau sylweddol o ran prydlondeb ateb galwadau brys a difrys.

Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran defnyddio pwerau'r heddlu'n deg ac effeithlon, a defnyddio a chofnodi pwerau stopio a chwilio. Mae'n gadarnhaol darllen y ffocws clir ar ddiogelu pobl sy'n agored i niwed, gyda gweithgarwch a arweinir gan gudd-wybodaeth yn cefnogi lleihau troseddau a diogelwch cymunedol yn cael eu cydnabod o fewn yr adroddiad. Ystyrir y buddsoddiad sylweddol mewn gwasanaeth atal, ymyrryd ac ymgysylltu ar gyfer plant a phobl ifainc yn ymrwymiad cryf hefyd. Mae hwn yn ymrwymiad rwy'n gwerthfawrogi'n arbennig.

Fodd bynnag, rwyf wedi fy sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn cydnabod bod angen rhagor o waith i fynd i'r afael â'r deg maes sydd angen eu gwella a amlinellir o fewn yr adroddiad.

Rwyf wedi cael gwybod bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo i gryfhau ymagwedd Heddlu Dyfed-Powys tuag at ymchwiliadau a chysondeb ymchwiliadau, gan sicrhau eu bod nhw'n cael eu datblygu'n effeithiol ac i'r safon mae ein cymunedau'n haeddu. Mae hyn yn cynnwys cryfhau goruchwyliaeth oruchwyliol ymchwiliadau, gwella prosesau sicrhau ansawdd ac archwilio presennol, a buddsoddiad pellach mewn datblygu ac

achredu ymchwilwyr. Bydd y camau hyn yn helpu i wella safonau, cysondeb a chanlyniadau ar gyfer dioddefwyr a'n cymunedau.

Bydd fy nhîm a minnau'n parhau i weithio'n agos â chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys drwy ein gweithgarwch goruchwylio a sicrwydd. Bydd hyn yn sicrhau y gweithredir ar yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchir drwy weithgarwch AHGTAEF i wella'r gwasanaeth plismona ar gyfer preswylwyr ardal Dyfed-Powys.